



Community Services Department
SOCIAL SERVICES

Direct Payments



This information may also be provided, by request, in other languages and in other formats. Please contact the Policy & Information Team on 01446 704814, or e-mail: socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk to make arrangements. Minicom number: 01446 742245.

| Contents | Page |
|---|-------------|
| What are Direct Payments? | 3 |
| Am I eligible for Direct Payments? | 3 |
| What can I use my Direct Payments for? | 3 |
| Are they the same as benefits? | 3 |
| What support will I receive? | 4 |
| Does this mean that I won't have a case manager anymore? | 4 |
| How do I 'buy-in' support? | 4 |
| Do I have to make a financial contribution? | 4 |
| Can my daughter be my PA? | 5 |
| I do not know anyone who I would like to be my PA - how do I find someone? | 5 |
| I want Direct Payments but am not sure I can manage the financial side by myself. Can I still receive them? | 5 |
| What happens if I decide that I want to change back to receiving a service directly provided by the Local Authority - could I do this? | 5 |
| I want Direct Payments - who do I need to contact? | 6 |

1. What are Direct Payments?

They are an alternative way of receiving a service from the Local Authority. Direct Payments give you the opportunity to arrange the care yourself, by giving you the money needed to organise your care and meet your assessed needs. This means you are in control of how your needs are met.

2. Am I eligible for Direct Payments?

Direct Payments can be paid to the following groups of people, following an assessment by a case manager:

- People with a physical and sensory impairment
- People with a learning disability
- Older People
- Carers
- People with parental responsibility for a disabled child
- People with Mental health problems
- Children with a disability aged 16/17

3. What can I use my Direct Payments for?

Direct Payments can be used to meet your assessed needs, as identified in your assessment and on your care plan. Direct Payments can also be used for respite but cannot be used to fund long-term residential care or to purchase nursing care.

4. Are they the same as benefits?

Direct Payments from the Vale of Glamorgan Council are not the same as the 'Direct Payment' scheme offered by the Department of Work and Pensions, which pays a person's pension and/or benefits directly into their bank account. Our Direct Payments are not regarded as income and therefore will not affect your benefit entitlement or taxes.

5. What support will I receive?

We have contracted with the Rowan Organisation to support you until you are comfortable managing by yourself. They can assist with:

- Recruitment
- Wages and accounts
- National Insurance
- Inland Revenue
- Staff Holidays
- Record Keeping
- Training and support to manage your Direct Payments
- Any other general employment issues

6. Does this mean that I won't have a case manager anymore?

No, your care package will still have the same reviews as any other service user receiving a directly provided service.

7. How do I 'buy-in' support?

Many people choose to employ a personal assistant (PA) who can assist them with personal, domestic and social tasks. Some people choose to employ through an agency, or have a mixture of both. As long as your assessed needs are met, you can be as creative as you like with purchasing support.

8. Do I have to make a financial contribution?

You may have to make a financial contribution to your care package and will have a financial assessment to determine what, if any, this may be.

9. Can my daughter be my PA?

As long as they do not live in the same house as you, a member of your family can become your PA. Family members who live in the same house will only be allowed to become PA's in exceptional circumstances.

10. I do not know anyone who I would like to be my PA - how do I find someone?

You can advertise in the local newspapers, or in the local Job Centre. The Rowan Organisation can support you with this to ensure that you find someone who you want to employ.

11. I want Direct Payments but am not sure I can manage the financial side by myself. Can I still receive them?

As long as you want to receive Direct Payments, you can have whatever assistance you need with managing the financial side of it. This assistance may come from the Rowan Organisation, it may come from your family or it may mean nominating someone to handle the day-to-day management of your Direct Payments.

12. What happens if I decide that I want to change back to receiving a service directly provided by the Local Authority - could I do this?

If you do decide that you do not wish to continue with Direct Payments, you can change back to receiving a directly provided service whenever you wish. The Local Authority also retains the right to withdraw Direct Payments if you do not meet your responsibilities and replace with a direct service.

13. I want Direct Payments - who do I need to contact?

You should contact your social worker and ask them to make a referral on your behalf. You can also contact the Direct Payments Development Officer on:

Tel: 01446 704685

E-mail: directpayments@valeofglamorgan.gov.uk

If you do not have a social worker, you should contact the Contact and Information Centre on 01446 731100 who will arrange for an assessment to take place. An assessment must take place before Direct Payments can be paid.



**Adran Gwasanaethau Cymunedol
GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Taliadau Uniongyrchol



Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd mewn ieithoedd a fformatiau eraill drwy holi. Ffoniwch y Tîm Polisi a Gwybodaeth ar 01446 704814 neu anfonwch neges e-bost i: socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk er mwyn gwneud trefniadau. Y rhif minicom yw: 01446 742245

| Mynegai | Tud |
|---|------------|
| Beth yw Taliadau Uniongyrchol? | 3 |
| Pwy sy'n gallu hawlio Taliadau Uniongyrchol? | 3 |
| Sut caf i ddefnyddio fy Nhaliadau Uniongyrchol? | 3 |
| Ydyn nhw'r un fath â budd-daliadau? | 3 |
| Pa gymorth a gaf i? | 4 |
| Ydy hynny'n golygu na fydd gennyf reolwr achos mwyach? | 4 |
| Sut mae mynd ati i brynu cymorth? | 4 |
| A fydd yn rhaid i fi wneud unrhyw gyfraniad fy hun? | 4 |
| A gaiff fy merch fod yn gynorthwy-ydd personol i fi? | 5 |
| Dwy i ddim yn 'nabod neb a allai fod yn gynorthwy-ydd personol i fi - sut galla' i ddod o hyd i rywun? | 5 |
| Hoffwn gael Taliadau Uniongyrchol ond dwy i ddim yn siwr y gallwn ymdopi â'r ochr ariannol ar fy mhen fy hun. Ydw i'n dal yn gymwys? | 5 |
| Beth petawn i am roi'r gorau i'r cynllun a chael gwasanaeth wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod unwaith eto - allwn i wneud hynny? | 5 |
| Hoffwn gael Taliadau Uniongyrchol - â phwy y dylwn i siarad? | 6 |

1. Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Ffordd arall o gael gwasanaeth oddi wrth yr Awdurdod Lleol yw Taliadau Uniongyrchol. O dan y drefn hon, cewch arian i drefnu'ch gofal eich hun a'r cymorth sydd ei angen arnoch yn ôl eich asesiad. Mae hyn yn golygu y bydd gennych reolaeth dros y math o gymorth sy'n cael ei roi i chi.

2. Pwy sy'n gallu hawlio Taliadau Uniongyrchol?

Y grwpiau sy'n gymwys i hawlio Taliadau Uniongyrchol ar ôl cael eu hasesu gan reolwr achos yw:

- pobl â nam ar y synhwyrâu neu nam corfforol
- pobl ag anabledd dysgu
- pobl hyn
- gofalwyr
- rhieni sy'n gofalu am blant anabl neu bwy bynnag sy'n gyfrifol yn lle'r rhieni
- pobl â phroblemau iechyd meddwl
- pobl ifanc anabl 16/17 oed

3. Sut caf i ddefnyddio fy Nhaliadau Uniongyrchol?

Cewch ddefnyddio'ch Taliadau Uniongyrchol i brynu'r cymorth sydd ei angen arnoch yn ôl eich asesiad a'ch cynllun gofal. Cewch brynu gofal seibiant ond nid gofal preswyl tymor hir na gofal nyrsio.

4. Ydyn nhw'r un fath â budd-daliadau?

Peidiwch â chymysgu Taliadau Uniongyrchol Cyngor Bro Morgannwg â chynllun 'Taliadau Uniongyrchol' yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n talu pensiynau neu fudd-daliadau'n syth i gyfrifon banc cleientiaid. Nid yw ein Taliadau Uniongyrchol yn cael eu hystyried yn incwm felly ni fyddant yn effeithio ar eich trethi na'ch hawl i fudd-daliadau.

5. Pa gymorth a gaf i?

Mae Sefydliad Rowan o dan contract i gefnogi cleientiaid y Cyngor a bydd yn eich helpu nes eich bod yn teimlo'n ddigon hyderus i ymdopi ar eich pen eich hun. Gall y Sefydliad helpu gyda:

- Recriwtio
- Chyflogau a chyfrifon
- Yswiriant Gwladol
- Chyllid y Wlad
- Gwylliau staff
- Chadw cofnodion
- Hyfforddiant a chymorth i'ch helpu i reoli'ch Taliadau Uniongyrchol
- Materion cyflogi'n gyffredinol

6. Ydy hynny'n golygu na fydd gennyf reolwr achos mwyach?

Nac ydy, byddwch yn cael eich arolygu lawn cymaint â rhywun sy'n derbyn gwasanaeth uniongyrchol.

7. Sut mae mynd ati i brynu cymorth?

Bydd llawer o bobl yn dewis cyflogi cynorthwy-ydd personol i'w helpu gyda thasgau personol, domestig a chymdeithasol. Cyhyd â'ch bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch yn ôl yr asesiad, cewch fod mor greadigol fyth ag y mynnwch wrth brynu cymorth.

8. A fydd yn rhaid i fi wneud unrhyw gyfraniad fy hun?

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu rhywfaint tuag at eich gofal eich hun a byddwn yn asesu'ch sefyllfa ariannol er mwyn penderfynu faint yn union y dylech ei gyfrannu.

9. A gaiff fy merch fod yn gynorthwy-ydd personol i fi?

Caiff, cyhyd â'i bod yn byw ar wahân i chi. Fel arfer ni chaiff perthynas sy'n byw yn yr un ty â'r ymgeisydd fod yn gynorthwy-ydd personol onibai fod amgylchiadau'r teulu'n bur eithriadol.

10. Dwy i ddim yn 'nabod neb a allai fod yn gynorthwy-ydd personol i fi - sut galla' i ddod o hyd i rywun?

Gellwch roi hysbyseb yn eich Canolfan Gwaith agosaf neu'r wasg leol. Gall Sefydliad Rowan eich helpu i ddod o hyd i rywun addas.

11. Hoffwn gael Taliadau Uniongyrchol ond dwy i ddim yn siwr y gallwn ymdopi â'r ochr ariannol ar fy mhen fy hun. Ydw i'n dal yn gymwys?

Os ydych am gael Taliadau Uniongyrchol, a'ch bod yn methu ag ymdopi â'r trefniadau ariannol ar eich pen eich hun, cewch hawlio unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch. Gellwch drefnu i Sefydliad Rowan neu'ch teulu eich helpu neu enwi rhywun arbennig i fod yn gyfrifol am reoli'ch Taliadau Uniongyrchol o ddydd i ddydd.

12. Beth petawn i am roi'r gorau i'r cynllun a chael gwasanaeth wedi'i ddarparu gan yr Awdurdod unwaith eto - allwn i wneud hynny?

Os byddwch am roi'r gorau i Taliadau Uniongyrchol, cewch newid yn ôl i wasanaeth uniongyrchol bryd bynnag y mynnwch. Mae'r Awdurdod hefyd yn cadw'r hawl i roi gwasanaeth uniongyrchol i chi'n lle Taliadau Uniongyrchol os nad ydych yn llwyddo i gyflawni'ch holl ddyletswyddau o dan y cynllun hwnnw.

13. Hoffwn gael Taliadau Uniongyrchol - â phwy y dylwn i siarad?

Dylech ofyn i'ch gweithiwr cymdeithasol wneud cais ar eich rhan. Cewch hefyd ffonio Swyddog Datblygu Taliadau Uniongyrchol ar:

Ffon: 01446 704685

E-bost: directpayments@valeofglamorgan.gov.uk

Os nad oes gennych weithiwr cymdeithasol, ffoniwch Ganolfan Cysylltu a Holi'r Cyngor ar 01446 731100 a bydd aelod o'r staff yn trefnu i chi gael eich asesu. Ni allwn dalu unrhyw arian o dan y cynllun hwn cyn cynnal asesiad.